# Tystiolaeth CLlLC

19 Ionawr 2023

## Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol: Ddyled ac effaith costau byw cynyddol

Leah Whitty, Swyddog Polisi Cyllid (Refeniw a Budd-daliadau)

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – Llais Cynghorau Cymru**
Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) yn sefydliad trawsbleidiol dan arweiniad gwleidyddol sy'n ceisio rhoi llais cryf i lywodraeth leol ar lefel genedlaethol.

Rydym yn cynrychioli buddiannau llywodraeth leol ac yn hybu democratiaeth leol yng Nghymru.

Ein haelodau yw'r 22 o Gynghorau yng Nghymru ac mae'r tri awdurdod tân ac achub ac awdurdodau'r tri pharc cenedlaethol yn aelodau cyswllt.

**Credwn fod y syniadau sy'n newid bywydau pobl yn digwydd yn lleol.**
Mae cymunedau ar eu gorau pan maent yn teimlo eu bod wedi'u cysylltu â'u cynghorau trwy ddemocratiaeth leol. Trwy hyrwyddo'r cysylltiadau hynny, eu hwyluso a'u cyflawni, gallwn ddatblygu democratiaeth leol fywiog sy'n galluogi cymunedau i ffynnu.

**Ein nod pennaf** yw hyrwyddo llywodraeth leol ddemocrataidd a buddiannau Cynghorau yng Nghymru, eu diogelu, eu cefnogi a'u datblygu.

**Byddwn yn cyflawni ein gweledigaeth drwy**
- Hyrwyddo swyddogaeth a statws cynghorwyr ac arweinwyr cynghorau
- Sicrhau'r rhyddid mwyaf yn lleol mewn deddfwriaeth neu ganllawiau statudol
- Dadlau o blaid cyllid cynaliadwy a hirdymor i gynghorau a'i sicrhau
- Hybu gwelliant dan arweiniad y sector
- Annog democratiaeth leol fywiog gan hybu mwy o amrywiaeth
- Cefnogi cynghorau i reoli eu gweithluoedd yn effeithiol

**Cyflwyniad**

**Y blaenoriaethau sydd angen eu hadlewyrchu yng Nghyllideb Ddrafft 2023-24 Llywodraeth Cymru yn ymwneud â chostau byw cynyddol, gan gynnwys atal a lleddfu dyledion**

Mae'r argyfwng costau byw yn broblem genedlaethol na all Llywodraeth Leol fynd i'r afael ag ef ar ei phen ei hun. Fodd bynnag, mae'r berthynas waith agosach yr ydym ni wedi'i datblygu â Llywodraeth Cymru yn ystod yr ymateb i bandemig covid wedi

rhoi sylfaen gadarn i ni ddatblygu partneriaeth gref yn y sector statudol ac anstatudol er mwyn gallu ymateb i argyfwng arall mewn cyfnod mor fyr.

Gan mai ni yw'r corff sy'n cynrychioli'r 22 o gynghorau yng Nghymru, byddwn ni'n parhau i bwyso am setliad ariannol teg i lywodraeth leol. Roedd y cyhoeddiad diweddar am y setliad yn well na'r disgwyl a bydd yn rhoi cyfle i gynghorau ystyried cyflwyno llai o gynnydd yn nhreth y cyngor i'w trigolion, gan leihau rhywfaint o'r pwysau ar gyllidebau aelwydydd. Bydd pob awdurdod lleol yng Nghymru yn dal i wynebu penderfyniadau anodd o ran gosod cyllideb gytbwys ar gyfer 2023-24.

Bydd y setliad yn helpu cynghorau i barhau i ariannu ymyriadau lleol a gwasanaethau ledled y wlad a fydd yn lliniaru eithafion gwaethaf yr argyfwng costau byw. Cynhaliodd CLlLC ymarfer bwrdd gwaith i fapio'r gweithgarwch costau byw yn y cynghorau (ceir crynodeb yn Atodiad I). Mae adborth yn sgil yr ymarfer hwn wedi nodi bod yr argyfwng costau byw wedi arwain at gynnydd yn y galw am wasanaethau lleol a bod mwy o gymhlethdod yn rhan o'r galw hwn. Felly, mae mwyafrif yr ymdrechion yn cael eu sianelu tuag at gynyddu capasiti mewn gwasanaethau cyhoeddus i gynnig cymorth wedi'i dargedu, mesurau atal ac ymyrraeth gynnar, gallu cael gafael ar wasanaethau a chynhyrchion fforddiadwy a chodi ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael.

Byddai llywodraeth leol yn croesawu unrhyw hyblygrwydd ac arian ychwanegol y gall Llywodraeth Cymru eu cynnig i alluogi cynghorau i barhau i roi'r cymorth pwysig hwn i'w drigolion.

Er ein bod ni'n croesawu'r buddsoddiad parhaus mewn polisïau sy'n targedu cymorth i'r aelwydydd mwyaf diamddiffyn yn ogystal â chyffredinolrwydd cadarnhaol y cynnig Prydau Ysgol am Ddim mewn Ysgolion Cynradd, mae pryder nad oes cyllideb i barhau â rhywfaint o'r cymorth ariannol allweddol sy'n cael ei roi drwy'r cynlluniau cymorth tanwydd a'r ddarpariaeth adeg gwyliau yn lle'r prydau ysgol am ddim yn y flwyddyn ariannol nesaf.

**Pa mor effeithiol y mae cymorth gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi bod wrth gefnogi'r rhai mwyaf anghenus gyda phwysau costau byw, ac wrth atal a rheoli dyled.**

Mae'r pecyn cymorth ariannol i ddinasyddion sy'n cael ei gyflwyno gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi'i groesawu gan ein haelodaeth.

Mae ymestyn yr hyblygrwydd sy'n cael ei roi drwy'r Gronfa Cymorth Dewisol (DAF) wedi bod yn hynod o ymatebol i anghenion y bobl fwyaf diamddiffyn wrth i bwysau costau byw gynyddu.

Mae awdurdodau lleol wedi bod yn bartner cyflenwi allweddol yn y mesurau costau byw a'r pecyn cymorth helaeth gan gynnwys:

- Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf
- Cynllun Cymorth Costau Byw
- Y Cynllun Cymorth Disgresiynol Costau Byw
- Taliadau i Ofalwyr Di-dâl
- Cynllun Cymorth Tanwydd Llywodraeth Cymru

Roedd y cynlluniau hyn wedi'u targedu'n benodol at aelwydydd ar incwm isel a/neu sy'n cael budd-daliadau lles penodol a gaiff eu gweinyddu gan Lywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU. Er bod hyn yn sicrhau bod y cymorth yn canolbwyntio ar y rhai sydd â'r angen mwyaf, maen nhw hefyd yn fwy o faich gweinyddol na phe bai'r cymorth sy'n cael ei gynnig ar gael i bawb.

Timau refeniw a budd-daliadau awdurdodau lleol oedd yn bennaf gyfrifol am gyflawni'r cynlluniau hyn, a oedd eisoes wedi gweinyddu gwerth 2 flynedd o grantiau ar gyfer y gwahanol gynlluniau cymorth covid. Er bod timau'r awdurdodau lleol wedi camu i'r adwy i gyflawni ar ran Llywodraeth Cymru, yn sicr bydd y cynlluniau wedi gwyro ymdrechion oddi wrth rai swyddogaethau arferol ar adegau gan gynnwys gweinyddu budd-daliadau Llywodraeth Cymru fel Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor a chasglu incwm/adennill dyledion.

Un o lwyddiannau mawr ymateb Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol i'r argyfwng costau byw fu datblygu cyfres o ganolfannau clyd a mannau cynnes mewn cymunedau. Mae'r mannau hyn yn cynnig cymorth amhrisiadwy yn y gymuned lle gall pobl fynd i fan cynnes, cael diod boeth a phryd bwyd poeth yn aml, yn ogystal â chael cyngor a gwybodaeth ynghyd â gweithgareddau cyfoethogi. Mae'r adborth anecdotaidd gan aelodau yn nodi bod y fenter hon wedi bod yn hynod o lwyddiannus ledled Cymru, ac er ei bod wedi'i chynllunio'n wreiddiol yn Ymyrraeth ar gyfer y Gaeaf, bydd effaith gadarnhaol o ganlyniad i bobl yn cael cymorth cyn argyfwng, a lleihau arwahanrwydd cymdeithasol ac unigrwydd ar yr un pryd, yn sicr yn cael eu hystyried wrth i Gynghorau ddatblygu eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol ar gyfer darparu gwasanaethau yn seiliedig ar leoliad yn y gymuned.

Mae'r rhan fwyaf o aelwydydd wedi cael rhywfaint o gymorth gan Lywodraeth y DU fel y Cynllun Cymorth Biliau Ynni a'r Cap ar Bris Ynni. Er bod hyn wedi caniatáu i'r ymyriadau gael eu cyflwyno ar raddfa fawr ac yn gyflym, nid yw'r cymorth o reidrwydd wedi targedu'r aelwydydd sydd â'r angen mwyaf ac nid yw'n rhoi cymorth i aelwydydd sy'n defnyddio tanwyddau eraill. Er y croesawir y cymorth sydd ar fin dod i ddefnyddwyr tanwyddau eraill, bydd y cymorth yn cael ei roi tua 4 i 5 mis ar ôl yr aelwydydd sydd â chyflenwad nwy a thrydan domestig.

**Effaith chwyddiant a phwysau costau byw ar y nifer sy'n manteisio ar wasanaethau cyngor ar ddyledion, a deall goblygiadau'r galw yn y dyfodol a pholisi Llywodraeth Cymru.**

Aelwydydd ag incwm isel fydd yn cael eu heffeithio fwyaf gan y cynnydd mewn chwyddiant a phwysau costau byw, sydd yn ôl adroddiad diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol, yn gwario cyfran uwch o'u gwariant ar eu tai, tanwydd a phŵer, bwyd a diodydd heb alcohol.  Mae'r meysydd gwariant hyn yn fwy tueddol o wynebu pwysau chwyddiant a chan eu bod nhw'n cael eu hystyried yn hanfodol, mae'n anoddach i aelwydydd dorri'n ôl ar eu gwariant cyffredinol.

Bydd gostyngiad mewn incwm gwario neu symud tuag at sefyllfa ariannol negyddol yn arwain at nifer cynyddol o aelwydydd heb ddigon o adnoddau i dalu eu costau byw hanfodol o ddydd i ddydd.  Mae canfyddiadau allweddol adroddiad "A snapshot of poverty in Summer 2022" gan Sefydliad Bevan yn cadarnhau nad oes gan 45% o gartrefi yng Nghymru byth ddigon o arian ar gyfer unrhyw beth heblaw nwyddau sylfaenol a rhwng mis Ionawr a mis Gorffennaf 2022, roedd 57% o bobl wedi torri'n ôl ar wres, trydan a/neu ddŵr ac roedd 39% o bobl wedi torri nôl ar fwyd i oedolion.

Mae pryder cynyddol hefyd y bydd pwysau sylweddol ychwanegol ar gyllidebau aelwydydd wrth i becynnau cymorth amrywiol Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ddod i ben dros y misoedd nesaf.  Mae dangosfwrdd costau byw Cyngor ar Bopeth Cymru, Tachwedd 2022, yn dangos y bwlch a amcangyfrifwyd yng nghyllidebau aelwydydd o fis Ebrill 2023.  Gallai hyn olygu bod rhai aelwydydd yn wynebu dyledion am y tro cyntaf, tra gallai'r aelwydydd sydd eisoes mewn dyled gael eu "dal" ar gynlluniau ad-dalu hirach ynghyd â dyledion uwch.

Un o'r meysydd gweithgarwch allweddol a nododd CLILC o ran codi ymwybyddiaeth a rhannu gwybodaeth.  Cydnabuwyd bod llawer iawn o weithgarwch a chymorth ar gael yn y gwasanaethau cyhoeddus, ond yr hyn yr oedd yn ganolog i lwyddiant y cymorth oedd pa mor rhwydd yr oedd ar gael i'r rhai sydd ei angen.  Er bod awdurdodau lleol wedi crynhoi'r wybodaeth hon ar dudalennau costau byw eu gwefannau, mae'r argyfwng yn effeithio ar aelwydydd na fydden nhw fel arfer wedi'u nodi'n aelwydydd sydd mewn perygl ac felly na fydden nhw o reidrwydd yn gwybod bod gwybodaeth a chymorth ar gael ar wefan eu Cyngor.

Mae aelodau hefyd wedi cydnabod y bu cynnydd yn y galw am wasanaethau yn cynnwys cyngor ar ddyledion ond ers trawsnewid gwasanaethau cynghori oddi wrth sianeli wyneb yn wyneb, mae pryderon yn dal i fod am hygyrchedd gwasanaethau o'r fath i unigolion nad ydyn nhw wedi'u cynnwys yn ddigidol, unigolion sydd ag anghenion cymorth ychwanegol neu unigolion nad yw'r gwasanaethau cyngor yn gwybod amdanyn nhw eisoes.

Byddai aelodau etholedig yn awyddus i weld gweithgarwch marchnata cenedlaethol cadarn i sicrhau bod unrhyw un sy'n cael trafferthion ariannol yn gallu cael cyngor ar ddyledion yn rhad ac am ddim mewn ffordd sy'n fwyaf cyfleus iddyn nhw.

**Sut mae gwahanol grwpiau'n profi pwysau costau byw, a sut mae hyn yn effeithio ar faterion yn ymwneud â dyled. Pa mor effeithiol yw ymyriadau polisi sy'n mynd i'r afael â'r heriau hyn, a pha newidiadau y gallai fod eu hangen i ddiwallu anghenion grwpiau penodol.**

Mae dangosfwrdd costau byw Cyngor ar Bopeth Cymru, Tachwedd 2022, yn cadarnhau mai cyngor ar ddyledion tanwydd yn hytrach na chyngor ar ôl-ddyledion treth y cyngor yw'r mater mwyaf cyffredin o ran dyledion yn y rhan fwyaf o swyddfeydd lleol yng Nghymru.  Fodd bynnag, mae galw mawr yn dal i fod ar gyfer cael cyngor yn ymwneud â threth y cyngor ac ôl-ddyledion rhent ynghyd ag unigolion yn gofyn am gymorth ynghylch defnyddio banciau bwyd.

Mae'r dangosfwrdd yn dangos bod pobl sengl, pobl sy'n rhentu a phobl ag anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor yn fwy tebygol o ddefnyddio Canolfan Cyngor ar Bopeth i gael cyngor ar ddyledion a thalebau banciau bwyd.  Nid yw hyn yn syndod o ystyried bod yr aelwydydd sydd ar yr incwm isaf yn gwario cyfran uwch o'u hincwm ar filiau blaenoriaeth fel treth y cyngor, rhent, bwyd a thanwydd.

Mae awdurdodau lleol wedi cydnabod bod angen deall sut y bydd costau byw yn effeithio ar wahanol aelwydydd fel y gellir cynllunio eu hymateb a'u gwasanaethau i fodloni eu hanghenion.  Mae'r ymatebion i arolwg CLILC wedi nodi bod rhai cynghorau eisoes wedi dechrau gweithio yn y maes hwn, ac mae cynghorau'n ymchwilio i sut y gallan nhw ddefnyddio proffilio dinasyddion a gwybodaeth data i ddeall effaith yr argyfwng costau byw ar wahanol ddemograffeg o drigolion.

Mae un cyngor wedi comisiynu darn o waith i greu 10 portread o'i ddinasyddion a sut mae pob portread yn debygol o gael ei effeithio gan yr argyfwng fel y gellir datblygu ymatebion pwrpasol ac wedi'u teilwra i bob portread.  Mae cyngor arall wedi cydweithio â chydweithwyr Iechyd y Cyhoedd i ymgymryd â gwaith mapio bregusrwydd i ddeall y bregusrwydd sy'n bod o ran iechyd a pheryglon cysylltiedig ei drigolion mewn ffordd debyg i ddull gwarchod a ddefnyddiwyd yn ystod y pandemig. Mae Awdurdod Lleol arall yn trefnu rhannu'r data diweddaraf ar y cyd rhwng yr ALl a phartneriaid cymdeithasol at ddefnydd gweithredol wrth ddatblygu dangosfwrdd tlodi i gydlynu ymyriadau priodol ar gyfer ei drigolion.

Mae ymateb llywodraeth leol i'r argyfwng costau byw yn cael ei ddatblygu a'i fireinio'n barhaus i sicrhau ei fod yn bodloni anghenion dinasyddion lleol.

Atodiad I

<table>
<tr><td>Maes Gweithgarwch Allweddol 1: Llywodraethu ac atebolrwydd</td></tr>
<tr><td><ul><li>Gweithgorau Hollbleidiol a Thrawsbleidiol</li><li>Is-grwpiau’r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus</li><li>Tasgluoedd Costau Byw</li><li>Partneriaeth Tlodi a Chostau Byw</li><li>Grwpiau gweithredol a llywio amlasiantaeth</li><li>Fforymau Cadernid Busnes</li><li>Grwpiau tasg a gorffen</li><li>Gweithdai Costau Byw y Rheolwr Atebol</li><li>Strategaethau, cynlluniau gweithredu a rhaglenni gwaith Costau Byw</li></ul></td></tr>
<tr><td>Maes Gweithgarwch Allweddol 2: Targedu a chydlynu cymorth</td></tr>
<tr><td><ul><li>Mapio bregusrwydd</li><li>Mapio’r ddarpariaeth bresennol</li><li>Dangosfyrddau Tlodi</li><li>Datblygu gwybodaeth cwsmeriaid</li><li>Ystyried dewisiadau o ran cyffredinoliaeth gymesur</li><li>Nodi cydlynwyr costau byw a chysylltwyr cymunedol</li><li>Ehangu a gwella'r fframweithiau presennol ar gyfer cymorth yn y gymuned, cymorth wedi’i gomisiynu a chymorth Awdurdodau Lleol</li><li>Cynnwys tlodi yn thema yn y cynlluniau ar gyfer cyllid grant y Gronfa Ffyniant Gyffredin</li><li>Cymorth ymarferol er mwyn sicrhau lles staff a gwirfoddolwyr</li></ul></td></tr>
<tr><td>Maes Gweithgarwch Allweddol 3: Cael gafael ar wasanaethau a chynhyrchion fforddiadwy</td></tr>
<tr><td><ul><li>Cydlynu amrywiaeth o fentrau bwyd yn cynnwys sicrhau bod digon o fwyd ar gael mewn argyfwng, oergelloedd cymunedol, pantrïau bwyd, bocsys bwyd sy’n cael eu danfon, rhaglenni popty araf, eiriolwyr coginio cymunedol, ffrwythau yn rhad ac am ddim i ysgolion uwchradd, pryd ar glud Well-Fed, siopau bwyd ac ysbytai i gadw bocsys diogelwch</li><li>Silffoedd mewn ysgolion ar gyfer bagiau/cotiau sy’n eich caniatáu chi i fynd â’r hyn sydd ei angen arnoch chi a chynlluniau cyfnewid/ailgylchu gwisg ysgol</li><li>Cynnig bwndeli babi yn cynnwys yr hanfodion a datblygu banciau babanod</li><li>Talebau cinio i deuluoedd sy’n mynd i apwyntiadau ysbyty yn ystod amser cinio</li><li>Hyrwyddo tariffau cymdeithasol</li><li>Dewisiadau credyd fforddiadwy / osgoi benthycwyr arian anghyfreithlon</li></ul></td></tr>
</table>

| |
|---|
| • Cydweithio rhwng colegau a chanolfannau cymunedol i gynnig gwasanaethau fel trin gwallt, trin ewinedd, tylino yn rhad ac am ddim/am bris rhatach<br>• Cynnig cludiant â chymhorthdal a chludiant cymunedol<br>• Cefnogi datblygu syndicadau olew gwresogi<br>• Datblygu rhaglenni cymorth cydfuddiannol<br>• Banciau pren i ailddefnyddio coed sydd wedi'u torri<br>• Hyrwyddo nifer y partneriaid yr ymddiriedir ynddyn nhw i ganiatáu atgyfeiriadau i gynllun talebau tanwydd y Fuel Foundation |
| Maes Gweithgarwch Allweddol 4: Ymyrraeth gynnar ac atal argyfwng |
| • Cyflwyno canolfannau clyd a mannau sy'n rhoi croeso cynnes<br>• Ymestyn y cynigion presennol mewn lleoliadau addysg, ieuenctid ac yn y gymuned i gynnwys oriau estynedig, darparu prydau bwyd a sicrhau y gellir defnyddio gwasanaethau cynghori<br>• Paratoi cefnogaeth ar gyfer y Nadolig yn cynnwys banciau teganau/prydau a pharseli bwyd Nadolig<br>• Ail lansio cynlluniau stryd i roi cymorth i'r cymunedau<br>• Gwasanaeth cynorthwyo/cyfeillio i atal arwahanrwydd cymdeithasol<br>• Bocsys rhodd dillad cynnes a rhoi pecynnau cynnes i unigolion nad ydyn nhw'n gallu mynd i fannau cynnes.<br>• Cyllid ychwanegol tebyg i'r gronfa caledi i gynorthwyo'r aelwydydd sydd â'r angen mwyaf<br>• Targedu elfennau gwariant dewisol cyllid Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i roi cymorth sy'n canolbwyntio ar y dinesydd – a'r amcanion allweddol yw atal digartrefedd a sicrhau bod gan deuluoedd gartrefi cynnes a bod bwyd ar eu byrddau<br>• Cymorth ariannol pwrpasol i berchnogion tai ac unigolion hunan-gyflogedig<br>• Taliadau ychwanegol i gefnogi cadw gofalwyr maeth a darparwyr llety â chefnogaeth<br>• Cyflwyno hawliadau treuliau ychwanegol i staff y cyngor sy'n teithio llawer yn rhan o'u gwaith ochr yn ochr â'r cynnydd i gyfraddau milltiroedd<br>• Taliadau untro i staff y cyngor ar gyflogau is |
| Maes Gweithgarwch Allweddol 5: Codi ymwybyddiaeth a rhannu gwybodaeth |
| • Tudalennau gwe costau byw i ganolbwyntio ar gymorth<br>• Cyfeiriadur ar-lein o gymorth â chostau byw a mapiau rhyngweithiol o fannau cynnes a chymorth arall sydd ar gael yn agos atoch chi.<br>• Cynyddu capasiti gwasanaethau cynhwysiant ariannol<br>• Hyrwyddo'r Gronfa Cymorth Dewisol a chynlluniau grant eraill a'r nifer sy'n hawlio tariffau cyfleustodau cymdeithasol<br>• Gwella sgiliau staff y rheng flaen i sicrhau bod pob cyswllt yn y gwasanaethau cyhoeddus yn cyfrif |

- Cefnogi ymgyrchoedd cenedlaethol a lleol i gynyddu'r nifer sy'n hawlio budd-daliadau
- Ymgyrchoedd wedi'u targedi i gynyddu nifer y budd-daliadau yng Nghymru sy'n cael eu gweinyddu'n lleol
- Sesiynau galw heibio yn y gymuned
- Hyrwyddo ymyriadau costau byw sy'n cael eu cyflwyno mewn cymunedau, yn cynnwys drwy'r sector preifat e.e. plant yn cael bwyd am ddim yn ystod hanner tymor, mannau cymunedol yng nghanghennau Asda
- Sesiynau briffio ar gyfer partneriaid a budd-ddeiliaid mewnol ac allanol
- Sefydlu eiriolwyr bwyd a thanwydd i gynnig cymorth a chyngor pwrpasol
- Creu asedau materol a digidol sy'n nodi'r cymorth sydd ar gael
- Cyfathrebu wedi'i dargedu ar gyfer trigolion
- Ymgyrchoedd i gefnogi aelwydydd i ddeall costau ynni a sut i arbed ynni
- Caffael gwasanaethau cynghori technegol ar effeithlonrwydd ynni
- Uwchgynadleddau / sioeau teithiol costau byw a digwyddiadau dysgu ar y cyd eraill
- Comisiynu gwasanaethau llinellau cyngor newydd a chyflwyno cydlynwyr ardal leol mewn cymunedau